Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Chwefror 2023

1. Cefndir

Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2022. Caiff ei noddi gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi diben y Bil fel a ganlyn:

> "*to make provision about the regulation of social housing; about the terms of approved schemes for the investigation of housing complaints; and for connected purposes*."

3. Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Hydref 2022. Cwblhawyd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Tachwedd. Disgwylir i'r Cyfnod Adrodd ddechrau ar 1 Mawrth 2023.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memoranda Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4)

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 18 Awst 2022, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[2]

6. Ar 5 Hydref 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd yn dilyn ei ddiwygio yn Nhŷ'r Arglwyddi.[3]

[1] Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 21)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Awst 2022
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Hydref 2022

7. Adroddwyd ar y Memoranda hyn ar 22 Tachwedd 2022.[4]

8. Mae paragraffau 10 i 16 a 19 i 22 o'r adroddiad hwnnw yn nodi'r cymalau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, adeg hynny, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle roedd anghytundeb yn codi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

9. Mae paragraffau 17 a 23 o'r adroddiad hwnnw yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

10. Ar 17 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd[5] (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod Cyfnod yr Adroddiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

11. Ar 6 Rhagfyr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach gerbron y Senedd[6] (Memorandwm Rhif 4) mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod Cyfnod yr Adroddiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi, a ddigwyddodd ar 29 Tachwedd.

12. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memoranda hyn ar 13 Ionawr 2022.[7]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 5)

13. Ar 15 Chwefror 2023, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[8]

14. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 5 erbyn 27 Chwefror 2023.[9]

---

[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Rhagfyr 2022

[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memoranda Rhif 3 a Rhif 4) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Ionawr 2023

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 5), Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Chwefror 2023

[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Chwefror 2023

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4)

15. Mae paragraff 19 o Femorandwm Rhif 5 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol cynharach ac yn cadarnhau – yn dilyn cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin – fod 39 o welliannau pellach gan Lywodraeth y DU wedi'u cyflwyno.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

16. Mae paragraffau 20 i 25 o Femorandwm Rhif 5 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

17. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ymwneud â'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil:

- Cymal newydd 'Pŵer ombwdsmon tai i gyhoeddi canllawiau i aelodau'r cynllun' (NC 2);
- cymal newydd 'Camau gweithredu ar ôl arolygiad' (NC 3);
- cymal newydd 'Dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddyd ynghylch darparu gwybodaeth i denantiaid' (NC 4);
- cymal 12 'Moratoriwm ar waredu tir' (Cymal 11 fel y'i cyflwynwyd);
- cymal 22 'Safonau'n ymwneud â gwybodaeth a thryloywder' (Cymal 17 fel y'i cyflwynwyd, cymal 19 yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi);
- Atodlen 5 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol).

Casgliadau Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 5

18. Ym mharagraffau 26 i 31 o Femorandwm Rhif 5 mae'r Gweinidog yn nodi ei rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil a'i chasgliadau ar y gwelliannau diweddaraf a gyflwynwyd.

19. Mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

> "*Rwyf yn parhau i fod o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, a bod y Bil yn ei gyfanrwydd, fel y disgwylir*

iddo gael ei lunio yn dilyn gwelliannau Llywodraeth y DU a gynigiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, yn gadarnhaol i'r tenantiaid hynny yng Nghymru.

Rwyf felly'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsynia i'r Bil fel y mae Gweinidogion y DU yn cynnig ei ddiwygio yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin."[10]

[10] Memorandwm Rhif 5, paragraffau 30 a 31

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

20. Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 5 yn ein cyfarfod ar 27 Chwefror 2023.[11]

21. O ystyried cynnig Llywodraeth Cymru i gynnal dadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol ar gyfer y Bil ar 28 Ionawr 2023, a chan ystyried y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, cytunwyd hefyd ar ein hadroddiad ar 27 Chwefror 2023.

Ein barn ni

22. Rydym yn nodi bod Memorandwm Rhif 5 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin i gymalau 12, 22 ac Atodlen 5, ac ychwanegu tri chymal newydd at y Bil.

23. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliannau i gymalau 12, 22 ac Atodlen 5 ac ar gyfer cymalau newydd yn ymwneud â phŵer yr ombwdsmon tai i gyhoeddi canllawiau i aelodau'r cynllun, gweithredu ar ôl arolygiad, a dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddyd ynghylch darparu gwybodaeth i denantiaid.

24. Rydym yn nodi bod un o'r gwelliannau i Atodlen 5 – gwelliant 35 gan Lywodraeth y DU – yn egluro nad yw pwerau a dyletswyddau amrywiol (h.y. pwerau a dyletswyddau newydd i brosesu gwybodaeth sydd wedi'u mewnosod yn Rhan 2 o *Ddeddf Tai ac Adfywio 2008*) yn gweithredu i'w gwneud yn ofynnol i brosesu gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data, neu awdurdodi hynny. Mae'r Gweinidog o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliant hwn. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gwelliant hwn yn ymwneud â'r mater a gadwyd yn ôl – sef diogelu data – ac felly nid oes angen cydsyniad arno.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno – yn ddarostyngedig i un eithriad – ag asesiad Llywodraeth Cymru bod y cymalau newydd a'r gwelliannau i'r cymalau a'r Atodlenni presennol a restrir ym Memorandwm Rhif 5 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 27 Chwefror 2023

25. Rydym yn nodi mai hwn yw'r pumed memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bil, sy'n dangos i ba raddau y mae'r Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU wedi newid ers ei gyflwyno ac i ba raddau y mae newidiadau o'r fath yn effeithio ar feysydd datganoledig.

26. Er ein bod yn croesawu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i osod Memorandwm Rhif 5 gerbron y Senedd o fewn ychydig ddyddiau ar ôl i'r gwelliannau perthnasol gael eu cyflwyno yn Senedd y DU, mae ein hystyriaeth o'r holl femoranda ar gyfer y Bil hwn yn tynnu sylw at yr annigonolrwydd dwfn o ran galluogi senedd wahanol i ddeddfu i Gymru ar faterion datganoledig.

27. Nodwn heddiw bod gwelliannau pellach wedi'u cyflwyno i'r Bil, y gallent hefyd effeithio ar feysydd datganoledig ac a fydd felly'n ymwneud â'r broses gydsyniad Deddfwriaethol.